YSGOL BRYNREFAIL

GWIRFODDOLWR Y MILENIWM

Elain Siân Roberts, blwyddyn 13 a Llion Rees Hughes, Blwyddyn 13 yn derbyn eu tystysgrifau gan Mirain Roberts, Mantell Gwynedd. Ymunodd Mirain â Mantell Gwynedd ddiwedd Ebrill 2007. Ei rôl yw hyrwyddo gwirfoddoli ymysg ieuenctid a rhoi gwybodaeth iddynt am y cyfleoedd gwirfoddoli sydd ar gael yng Ngwynedd.
Cafodd Elain ei chydnabod am wirfoddoli 50 awr ym myd chwaraeon a Llion am iddo wirfoddoli 50 awr rhwng Menter Fachwen a W.R.V.S. yn Ysbyty Gwynedd.
Y mae pawb ym Mrynrefail yn falch iawn o lwyddiant y ddau.